Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Mwy Abergele

Canolfan y Morfa
Ffordd y Morfa
Abergele
Conwy
LL22 7NU

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Mwy Abergele

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Mwy, Abergele |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Rhian Hughes |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Nerys Sandland a Siwan Davies |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 2 oed – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener: 1.00yb – 3.00yp sesiwn plant yn cael ei hariannu i dderbyn addysg yn y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed 9:00yb – 11.30yp sesiwn Meithrin Mwy 11.30yb – 1.00yp amser cinio Meithrin Mwy |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 21/11/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/06/2018 |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/02/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Defnyddio arsylwadau yn fwy pwrpasol er mwyn cynllunio'r camau nesaf ar gyfer pob plentyn

A2 Gwella'r broses ar gyfer adolygu ansawdd y gofal

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ddim mewn gweithgarwch dilynol

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron pob plentyn yn hapus, yn fodlon ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn gwneud penderfyniadau annibynnol yn llwyddiannus ac yn dewis sut i dreulio'u hamser mewn modd pwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn symud yn hyderus o amgylch yr amgylchedd dysgu a rhwng yr amrywiaeth eang o brofiadau chwarae. Mae hyn yn galluogi plant i ddilyn eu diddordebau a chymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis yn eu hamser eu hunain yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau ag ymarferwyr ac yn gwybod bod eu cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r rhan fwyaf o blant hefyd yn dechrau datblygu strategaethau syml i reoli eu hemosiynau, er enghraifft trwy ofyn i ymarferwyr am gefnogaeth, pan fo angen. Mae bron pob plentyn yn gyfforddus ac yn teimlo'n ddiogel wrth fynd at ymarferwyr ac yn derbyn gofal a sylw ganddynt. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth, sy'n meithrin eu hyder i rannu'u llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn falch o wahodd yr ymarferwyr i weld eu gwaith paentio ac yn ymateb yn frwdfrydig pan gaiff eu hymdrechion eu cydnabod.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio mewn modd cadarnhaol ac wedi dechrau gwneud ffrindiau. Maent yn awyddus i gyfarch ei gilydd ac i sgwrsio yn ystod amser cinio ac wrth chwarae. Maent yn mwynhau cydweithio a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig wrth chwilio am adar gydag ysbienddrychau ac yn datgan gyda chyffro pan fyddant yn gweld un. Mae llawer o blant yn hapus i rannu adnoddau gyda'u ffrindiau ac yn datblygu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, ar y buarth amser cinio, maent yn fodlon rhannu beic ac yn dangos diddordeb yn ymdrechion eu ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau'n dda wrth ymgymryd â phrofiadau chwarae ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau amrywiol. Er enghraifft, maent yn cael llawer o hwyl wrth drin toes ac ychwanegu deunyddiau naturiol fel dail a brigau i greu coeden. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas ac yn defnyddio eu dychymyg yn effeithiol. Maent yn gwisgo siaced lachar a helmed ac yn defnyddio offer llaw i esgus trwsio celfi o amgylch yr ystafell, gan fwynhau chwarae rôl pwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i gyflawni tasgau ymarferol drostynt eu hunain, fel golchi eu dwylo neu arllwys diod i gwpan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn diwallu eu hanghenion personol yn effeithiol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r mwyafrif o blant yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u hoedran a'u hanghenion unigol. O'r cychwyn, maent yn archwilio'n hyderus ac yn datblygu'n ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol, gan fynegi eu syniadau'n glir wrth gymryd rhan mewn trafodaethau syml.

Mae llawer o blant yn dangos empathi ac ymdeimlad o ofal tuag at ei gilydd, gan gynnig cymorth a rhannu adnoddau'n ystyrlon. Er enghraifft, gwelir plant yn cynnig cymorth i'w cyfoedion yn ystod chwarae neu wrth rannu adnoddau'n garedig. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, ac mae mwyafrif y plant yn dechrau defnyddio strategaethau dysgu fel gofyn am gymorth neu awgrymu atebion newydd i heriau.

Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol mewn chwarae strwythuredig ac anstrwythuredig. Er enghraifft, wrth adeiladu 'tŷ bach twt' o focsys cardfwrdd, maent yn trafod syniadau, trafod rolau ac addasu eu cynlluniau wrth i'r chwarae ddatblygu. Mae hyn yn dangos medrau cydweithio cadarn. Yn ogystal, mae llawer o blant yn dangos cynnydd amlwg dros amser drwy ailymweld â gweithgareddau a gwella eu syniadau blaenorol.

Mae medrau corfforol plant yn datblygu'n gadarn, ac maent yn symud yn hyderus yn yr awyr agored, er enghraifft gan gerdded dros rwystrau a thrin offer mewn gwahanol ffyrdd. Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus, ac mae llawer yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth greu cymeriadau allan o does a phaentio hunanbortreadau.

Mae llawer o blant yn defnyddio medrau mathemategol yn naturiol wrth chwarae, megis cyfrif, mesur a chymharu meintiau. Maent yn trafod pwy sydd â'r pentwr tywod mwyaf ac yn trefnu eitemau yn ôl maint. Yn ogystal, maent yn defnyddio adnoddau i arbrofi ac i ddatrys problemau'n effeithiol. Er enghraifft, mewn gweithgaredd adeiladu rampiau a llwybrau ar gyfer ceir bach, maent yn profi gwahanol onglau ac yn addasu eu syniadau wrth arsylwi ar symudiad y ceir.

Mae medrau marcio cynnar mwyafrif y plant yn datblygu'n gyson. Maent yn mwynhau gwneud marciau ar lechi, papur mawr a thywod. Yn yr ardal ddarllen, mae'r rhan fwyaf yn dangos mwynhad gwirioneddol o lyfrau, er enghraifft drwy drafod cymeriadau neu ailadrodd ymadroddion cyfarwydd gyda brwdfrydedd. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml drwy'r Gymraeg ac yn ehangu eu geirfa yn raddol, gyda ychydig ohonynt yn dechrau siarad Cymraeg yn ddigymell. Trwy gyfleoedd dyddiol i ddefnyddio'r Gymraeg, maent yn meithrin hyder cynyddol fel dysgwyr iaith.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae’r holl ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol ac yn hyderus o ran y gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae nifer priodol o ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig llawn, sy’n eu galluogi i ddarparu triniaeth briodol, pe bai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n fanwl ac yn sicrhau bod rhieni’n arwyddo’r cofnodion yn brydlon. Mae ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu cofnodi’n drylwyr. Mae bron bob un ymarferydd yn dilyn gweithdrefnau hylendid manwl, ac mae’r arferion hyn wedi’u hymgorffori’n bwrpasol yng ngweithgareddau’r plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo’n rheolaidd ac yn sicrhau bod y byrddau’n cael eu diheintio cyn ac ar ôl amser bwyd. Mae bron bob un ymarferydd yn hyrwyddo bwyta’n iach ac ymarfer corff yn effeithiol. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser yn yr awyr agored yn ddyddiol.

Mae’r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd ystyrlon â’r plant. Maent yn siarad yn glir ac yn annwyl â’r plant, ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau cyson ac effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, yn unol â pholisi’r lleoliad. Er enghraifft, maent yn atgoffa’r plant yn dyner ac yn canmol ymddygiad cadarnhaol a’u hymdrechion yn barhaus. Mae pob ymarferydd yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant. Mae bron bob un ymarferydd yn dilyn trefniadau pwrpasol i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu gwybodaeth berthnasol am hoffterau, anghenion a chefndir pob plentyn cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion a’u dymuniadau unigol yn glir. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant yn amserol er mwyn cael cyngor a chymorth ychwanegol gan asiantaethau allanol. Mae ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol, lle bo angen, er mwyn cryfhau eu gallu i gefnogi pob plentyn.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae’r ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes a chefnogol â’r plant sy’n creu amgylchedd dysgu diogel ac ymatebol. Maent yn defnyddio medrau cyfathrebu cryf, gan fodelu Cymraeg llafar yn effeithiol drwy batrymau, ymadroddion a chaneuon. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dechrau mynegi eu syniadau a rhannu profiadau’n hyderus. Maent hefyd yn defnyddio technegau cyflwyno eglur ac ailadrodd strategol i helpu plant i atgyfnerthu iaith a chysyniadau newydd.

Mae holi agored yn nodwedd gyson o’r rhyngweithiadau dyddiol. Er enghraifft, mewn gweithgareddau awyr agored, gofynnir i blant feddwl sut i greu paent o bridd a sut i newid pa mor dywyll yw’r lliw. Mae hyn yn annog meddwl beirniadol, chwilfrydedd a thrafodaeth gydweithredol. Mae’r dull hwn hefyd yn meithrin hyder plant i feddwl yn annibynnol ac i fyfyrio ar eu syniadau eu hunain.

Mae prosesau asesu yn datblygu’n briodol. Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau i nodi anghenion a chychwyn cynllunio camau nesaf ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid yw’r wybodaeth bob amser yn cael ei defnyddio’n ddigon systematig i lywio profiadau dysgu unigolion.

Mae llawer o ymarferwyr yn aml yn cynllunio mewn ffordd hyblyg ac yn ymatebol i ddiddordebau’r plant. Mae hyn yn rhoi lle canolog i leisiau’r plant er mwyn eu cynorthwyo i ddilyn eu diddordebau, gan wella ansawdd eu hymgysylltiad a’u cymhelliant. Er enghraifft, maent yn addasu’r  ddarpariaeth yn ôl ymateb y plant i gymeriad o lyfr, gan gynnwys gweithgareddau arsylwi ar natur, gweithgareddau cyfrif a chymharu meintiau, yn ogystal â chyfleoedd creadigol i greu cymeriadau o does a deunyddiau naturiol.

Mae llawer o ymarferwyr yn datblygu medrau digidol, ysbrydol a moesol y plant yn briodol. Maent yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol yn effeithiol, er enghraifft trwy archwilio gwledydd, bwydydd a dathliadau fel Diwali. Maent hefyd  yn helpu'r plant i ddeall ble maent yn byw, pwy sy’n rhan o’r gymuned, a beth sy’n unigryw i’w hamgylchedd. Mae’r plant yn ymateb yn frwdfrydig i’r profiadau hyn ac yn dechrau datblygu synnwyr cadarn o berthyn.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau mathemategol plant. Maent yn sicrhau bod bron pob plentyn yn cael cyfleoedd naturiol i gyfrif, adnabod siapiau a defnyddio iaith fathemategol, fel pan fyddant yn mesur tywod neu wrth gymharu meintiau pan fyddant yn chwarae â thoes. Mae ymarferwyr hefyd yn paratoi cyfleoedd cyfoethog i blant ddatblygu eu medrau creadigol, drwy adael iddynt arbrofi gyda deunyddiau, lliw a gweadau.

Mae cynllunio ar gyfer datblygiad corfforol  plant yn effeithiol. Mae plant yn elwa ar gyfleoedd cyson ar gyfer symud a chwarae gweithredol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy’n galluogi plant i ddefnyddio cerbydau, trin offer a chymryd rhan mewn gweithgareddau synhwyraidd sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygu eu medrau corfforol.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Mae ganddynt drefniadau cadarn i reoli mynediad i’r safle, ynghyd â gweithdrefnau clir sy’n sicrhau bod ymwelwyr yn mewngofnodi’n brydlon. Cedwir yr holl gofnodion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth yn

ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau priodol ar waith i fonitro a rheoli unrhyw beryglon yn effeithiol. Mae asesiadau risg cynhwysfawr yn amlinellu peryglon posibl a'r camau i leihau neu ddileu risgiau i blant.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd hunangynhwysol o ansawdd da sy'n groesawgar a chartrefol. Maent yn darparu cyfleusterau addas sy'n galluogi plant i ddefnyddio'r toiledau a golchi eu dwylo'n annibynnol, yn ogystal â man newid cewynnau sy'n sicrhau preifatrwydd. Mae digon o le i blant symud o gwmpas yr amgylchedd yn rhwydd. Mae arweinwyr yn trefnu'r brif ystafell yn effeithiol, gan ddarparu ardaloedd dysgu pwrpasol a chynnig profiadau chwarae cyfoethog sy'n hybu datblygiad plant. Yn ogystal, mae llyfrgell lle gall plant fwynhau gwrando ar stori, darllen neu ymlacio. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant ddefnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored i fwynhau chwarae gyda thywod, yn y gegin fwd neu fentro ar y siglen. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o fuarth a chae'r ysgol. Maent yn meithrin ymdeimlad o berthyn ymhlith plant drwy arddangos enghreifftiau o'u gwaith a ffotograffau ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod offer addas ac ystod eang o adnoddau diddorol a chyffrous ar gael i blant. Mae'r adnoddau hyn o ansawdd da ac wedi'u storio ar lefel isel, gan alluogi plant i wneud dewisiadau'n annibynnol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau wedi'u hailddefnyddio a deunyddiau naturiol i annog y plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, maent yn defnyddio bocsys cardfwrdd mewn ffyrdd dychmygus ac yn arsylwi ar flociau o iâ sy'n cynnwys brigau wrth iddynt doddi. Mae hefyd ystod o adnoddau ar gael i hybu ymwybyddiaeth plant o ddiwylliannau gwahanol, megis teganau a gwisgoedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn llwyddo i gynnal ethos cynnes a chynhwysol sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn. Maent yn darparu gweledigaeth glir sy'n cael ei deall gan yr holl staff, gan sicrhau tîm cydlynol sy'n ymroi i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd da. Maent hefyd yn cyfathrebu'r weledigaeth hon yn glir i rieni a rhanddeiliaid, gan sicrhau cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau'r lleoliad.

Mae ethos y feithrinfa yn seiliedig ar barch, cynhwysiant a lles, ac mae ymarferwyr yn modelu'r gwerthoedd hyn yn gyson. Mae gwaith tîm cryf yn nodwedd o'r lleoliad, gyda arweinwyr ac ymarferwyr yn rhannu syniadau ac arferion yn ystod cyfarfodydd a sesiynau cynllunio. Mae arweinwyr yn gweithredu systemau goruchwylio sy'n adeiladol ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn effeithiol. Maent yn defnyddio adborth a thargedau datblygu unigol i feithrin gwelliant parhaus o fewn y lleoliad.

Mae prosesau recriwtio yn gadarn, ac mae gweithdrefnau clir yn sicrhau diogelwch ac addasrwydd y staff. Mae rolau a chyfrifoldebau'n glir, ac mae staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sefydledig yn effeithiol. Mae'r arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben sy'n cyflwyno'n fanwl ddisgwyliadau a gwerthoedd y lleoliad. Maent hefyd yn adolygu polisïau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu arfer orau.

Mae prosesau hunanwerthuso yn briodol. Mae arweinwyr yn casglu ystod o dystiolaeth, gan gynnwys arsylwadau, adborth rhieni a gwybodaeth am ddatblygiad cynnar plant. Fodd bynnag, nid yw'r adolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys camau gweithredu yn seiliedig ar y canfyddiadau.

Mae'r arweinwyr yn rheoli cyllidebau'n gyfrifol ac yn defnyddio grantiau'n bwrpasol i wella darpariaeth, er enghraifft adnoddau amlddiwylliannol megis gwisgoedd a llyfrau newydd sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gyda rhieni ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Er enghraifft, maent yn trefnu sesiynau sy'n galluogi rhieni i ymuno â'u plentyn mewn gweithgareddau, trafod cynnydd a rhannu gwybodaeth ddefnyddiol gydag ymarferwyr. Mae hyn yn hyrwyddo cyfathrebu dwy ffordd a dealltwriaeth o anghenion unigol plant. Mae'r gwaith trosglwyddo gyda'r ysgol gynradd gyfagos hefyd yn gefnogol. Mae plant yn ymweld â'r dosbarth meithrin ac yn ymgysylltu â gweithgareddau ar y cyd, gan helpu'r rhan fwyaf i symud ymlaen yn hyderus i'r cam nesaf yn eu taith ddysgu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/04/2026